Trawsfynydd Site Stakeholder Group (SSG)
Emergency Arrangements Report - December 2016

Changes since last meeting

There have been changes in personnel on the Emergency Standby Team due to Magnox 'Best Fit' transition campaign but disruption has been managed and kept to a minimum.

The Magnox Central Planning Team has also been restructured under the 'Best Fit' campaign. Support is still available as and when required.

The Emergency Control Centre based in the Administration Block is being relocated to Pen-Y-Bryn as demolition of the Admin Block is to commence imminently.

Emergency Planning Consultative Committee meeting

Due to the unavailability of key personnel at Wylfa site the EPCC planned for September was cancelled. This has been rescheduled to March 2017.

Site Exercises

Trawsfynydd Site hosted its Annual Exercise Demonstration in June. This was the first time that the Office for Nuclear Regulation (ONR) Site Inspector has not considered it necessary to attend an Annual Demonstration. However the Magnox EHSS&Q Assurance team were able to provide the critique and scrutiny. Their final report highlighted minor learning points but on the whole it was an adequate display of the site's capability to respond to an incident. ONR will now assess site exercises once every 3years rather than annually.

The site has also been heavily involved in a campaign of Training and Exercises to support the implementation of Contingency Arrangements in the first half of 2017.

Look ahead

The existing Emergency Arrangements, which are no longer proportionate to the reduced risks at Trawsfynydd site will be replaced by Contingency Arrangements once the Office for Nuclear Regulation inspectorate have studied all the available evidence to support implementation and have witnessed a formal Contingency Arrangements Exercise Demonstration.

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (SSG)
Adroddiad Trefniadau Argyfwng - Mis Rhagfyr 2016

Newidiadau ers y cyfarfod diwethaf

Mae personél y Tîm Wrth Gefn mewn Argyfwng wedi newid o ganlyniad i ymgyrch pontio 'Ffit Orau' Magnox, ond mae'r amhariad wedi cael ei reoli a'i gadw cyn ised â phosib.

Mae Tîm Cynllunio Canolog Magnox hefyd wedi cael ei ailstrwythuro fel rhan o'r ymgyrch 'Ffit Orau'. Mae cymorth yn dal ar gael yn ôl yr angen.

Mae'r Ganolfan Rheoli Argyfwng yn y Bloc Gweinyddu yn cael ei symud i Ben-y-Bryn, gan y bydd y gwaith o ddymchwel y Bloc Gweinyddu yn dechrau maes o law.

Cyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng

Gan nad oedd personél allweddol safle Wylfa ar gael, cafodd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng ym mis Medi ei ganslo. Mae wedi cael ei aildrefnu ar gyfer mis Mawrth 2017.

Ymarferion ar y Safle

Cynhaliodd Safle Trawsfynydd ei Ymarfer Arddangos Blynyddol ym mis Mehefin. Hwn oedd y tro cyntaf i Arolygydd Safle'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear beidio â chredu ei fod yn angenrheidiol iddo fod yn bresennol mewn Arddangosiad Blynyddol. Serch hynny, roedd Tîm Sicrwydd Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Magnox yn gallu darparu'r feirniadaeth a'r gwaith craffu. Amlygwyd pwyntiau dysgu bach yn ei adroddiad terfynol, ond ar y cyfan roedd yn arddangosiad digonol o allu'r safle i ymateb i ddigwyddiad. Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear nawr yn asesu ymarferion safle bob tair blynedd yn hytrach nag yn flynyddol.

Mae'r safle hefyd wedi bod yn rhan bwysig o ymgyrch Hyfforddiant ac Ymarferion i gefnogi'r broses o roi Trefniadau Wrth Gefn ar waith yn hanner cyntaf 2017.

Edrych ymlaen

Bydd y Trefniadau Argyfwng cyfredol, sydd ddim yn gymesur â'r risgiau llai yn safle Trawsfynydd bellach, yn cael eu disodli gan Drefniadau Wrth Gefn ar ôl i Arolygiaeth y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear astudio'r holl dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r broses weithredu, ac wedi gweld Arddangosiad Ymarfer Trefniadau Wrth Gefn ffurfiol.